



Cynllun Iaith Gymraeg Cymdeithas Tai Cantref

Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cod Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2006

Derbyniodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14(1) y Ddeddf ar 23 Mawrth 2007

1. DATGANIAD

1.1 Nod y Cynllun

Mae Cymdeithas Tai Cantref wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Cymdeithas Tai Cantref yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.2 Amcanion

- galluogi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth neu drafod gyda'r Gymdeithas i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn
- sicrhau gwasanaethau Gymraeg o ansawdd uchel
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned
- annog eraill i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg
- hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn cydnabod mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Gymdeithas felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin â hi yn unol â'r egwyddor isod.

2. CYFLWYNIAD

2.1 Cefndir a Gwerthoedd Corfforaethol

2.1.1 Cefndir

Ffurfiwyd Cymdeithas Tai Cantref yn 1989 pan unwyd dwy gymdeithas dai leol, sef Cymdeithas Tai Pumlumon yn Aberystwyth a Chymdeithas Tai Teifi yng Nghastell Newydd Emlyn. Sefydlwyd y ddwy gymdeithas yma'n wirfoddol gan bobl leol ar ddechrau'r 1980au gyda'r nod o ddarparu cartrefi i bobl ifainc a theuluoedd lleol er mwyn ceisio atal y diboblogi o bentrefi a threfi'r ardal. Yn ogystal, roedd diogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith a chefnogi busnesau lleol yn allweddol i egwyddorion y sylfaenwyr. O'r cychwyn y Gymraeg oedd iaith gweinyddiaeth fewnol ac y mae'n parhau felly hyd heddiw.

Yn dilyn yr uno cafwyd gwell sylfaen i wynebu'r her newydd a ddaeth yn sgil Deddf Tai 1988 a'r angen i fenthycu arian preifat er mwyn parhau i ddatblygu tai. Ym 1989 roedd gan y Gymdeithas tua 200 o unedau yn cynnwys, yn bennaf, tai a fflatiau ar rent ac unedau i'r henoed. Erbyn hyn mae ganddi 1360 o unedau. Prif weithgaredd Cantref o hyd yw darparu cartrefi anghenion cyffredinol ond mae ganddi hefyd nifer o gynlluniau llety â chymorth ar gyfer pobl y mae angen cefnogaeth arnynt i fyw yn y gymuned. Cantref hefyd sy'n rhedeg Gofal a Thrwsio Ceredigion. .

2.1.2 Amcanion, Gwerthoedd ac Ymrwymïadau y Gymdeithas

Amcanion

- cyflawni anghenion ei hardal weithredu am gartrefi mewn cydweithrediad â'r Cynghorau Sir.
- gwneud hynny, cyn belled â phosib, mewn modd sy'n diogelu'r Gymraeg ac sy'n cryfhau cymunedau lleol a'r economi lleol.

Gwerthoedd sy'n cael eu cydnabod

- bod rhaid cael cymunedau cryf er mewn sicrhau ansawdd da o fyw
- bod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o gymunedau cryf yn ardal weithredu Cantref
- bod Cantref yn atebol nid yn unig i gyrff rheoleiddio statudol a'i chyfranddalwyr ond hefyd i'w thenantiaid, y Cynghorau Sir a chymunedau unigol
- bod barn a phrofiad ei thenantiaid yn werthfawr wrth reoli Cantref yn effeithiol
- bod staff Cantref yn ased gwerthfawr nad oes modd cyflawni amcanion y Gymdeithas hebddynt.

Ymrwymiadau

- peidio â chodi neu brynu rhagor o dai yn unman oni bai fod gwir angen rhagor o dai cymdeithasol yno
- rhoi blaenoriaeth deg ac agored i ymgeiswyr â chysylltiadau lleol wrth osod eiddo
- darparu gwasanaethau cyflawn yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis yr unigolyn
- defnyddio'r Gymraeg yn brif iaith weinyddol y Gymdeithas ac i ddefnyddio'r iaith cyn belled â phosib mewn gohebiaeth â chyrrff eraill
- darparu gwybodaeth i denantiaid a chreu cyfleodd iddynt fynegi eu barn am berfformiad Cantref ac i gymryd rhan mewn rheoli Cantref ac i barchu eu cyfraniad
- darparu gwybodaeth yn eang am Cantref, ei gweithgareddau a'i pherfformiad a chrosawu sylwadau gan gyrff lleol a'r cyhoedd yn gyffredinol
- bod yn gyflogwr ystyriol a hyblyg; parchu barn ei staff ac anelu at ddatblygu potensial llawn bob aelod o'i staff trwy ddarparu hyfforddiant, cymorth a phrofiad.

2.1.3 Ariannu

Mae Cantref yn 'Landlord Cymdeithasol Cofrestredig' ac y mae'n defnyddio grantiau sy'n cael eu dyrannu gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae hefyd yn benthyca oddi wrth fanciau a chymdeithasau adeiladu ac yn cael cymorth gan gynghorau sir ar gyfer rhai cynlluniau.

2.2 Strwythur ac Ardal Weithredu

2.2.1 Bwrdd Rheoli a'r Uwch Dim Rheoli

Etholir y Bwrdd Rheoli bob blwyddyn gan gyfranddalwyr Cantref a gall gynnwys hyd at 15 aelod yn cynnwys 5 aelod denant a etholir gan y tenantiaid eu hunain ac 1 aelod cyfetholedig. Mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio i'w gynorthwyo gyda'r swyddogaeth craffu.

Mae'r Uwch Dim Rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid a Chyfarwyddwr Gweithrediadau.

2.2.2 Swyddfeydd

Mae prif swyddfa Cantref yng Nghastell Newydd Emlyn.

2.2.3 Defnydd mewnol o'r Gymraeg

Cymraeg yw iaith weinyddol fewnol y Gymdeithas. Mae Cantref yn cyflogi 66 aelod o staff ac mae'r rhan helaeth ohonynt yn gwbl ddwyieithog gyda gallu'r gweddill yn amrywio o ddeall yr iaith ond heb fedru ei siarad yn rhugl, i ddysgwyr. Mae Tîm Rheoli a Phenathiaid Gwasanaethau i gyd yn ddwyieithog, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

2.2.4 Ardal Weithredu

Mae Cantref yn gweithredu mewn pedair ardal awdurdod lleol, sef:

Ceredigion – yr holl ardal
Sir Gaerfyrddin – y gogledd
Sir Benfro - y gogledd
Powys - Bro Ddyfi

2.2.5 Stoc Tai

Mae'r Gymdeithas yn rheoli 1,360 o dai a fflatiau (31 Mawrth 2008). Nodir lleoliadau yr unedau yn ôl siroedd isod ynghyd â'r gwahanol gategoriau:

Ceredigion	867
Sir Benfro	300
Sir Gaerfyrddin	140
Powys	53
Tai a fflatiau ar gyfer teuluoedd	1051
Eiddo Prynu Cartre'n Rhatach	13
Eiddo ar gyfer yr Henoed	216
Unedau Llety â Chymorth	63
Arall	17

2.3 Defnyddwyr Gwasanaeth

Swyddogaeth Cantref yw darparu tai ar rent neu i'w gwerthu i bobl sy'n methu prynu neu rentu ar y farchnad agored. Mae hefyd yn darparu cymorth ar gyfer pobl gydag anghenion arbennig. Cantref sy'n rhedeg Gofal a Thrsio Ceredigion sy'n rhoi cymorth a chynghor i bobl hŷn sy ddim yn denantiaid i Cantref i addasu ac atgyweirio eu cartrefi.

Mae'n hanfodol fod y Gymdeithas yn gallu cynnig gwasanaeth i'r cwsmeriaid yma yn eu dewis iaith.

Mae Cantref yn gweithio'n agos ac mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol ac amrywiol asiantaethau a chyrrff cyhoeddus. Mae mewn cysylltiad yn ddyddiol gyda'r cyhoedd yn gyffredinol, yn cynnwys contractwyr, ymgynghorwyr a chyflenwyr.

2.4 Yr Iaith Gymraeg

2.4.1 Ystadegau Cyfrifiad 2001

Mae ystadegau cyfrifiad 2001 yn dangos nifer siaradwyr Cymraeg yn ardal weithredu Cantref fesul siroedd fel y nodir isod:

Awdurdod Lleol	Cyfrifiad 2001	
	Yn gallu siarad Cymraeg Nifer	Canran %
Ceredigion	37,918	52
Sir Gaerfyrddin	84,196	50
Sir Benfro	23,967	22
Powys	24,814	21

Mae Cantref yn gweithredu drwy holl ardal Ceredigion lle mae dros hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg; yn Sir Gaerfyrddin mae hanner y boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.

Er bod y ffigurau yn is ar gyfer y ddwy sir arall mae stoc tai Cantref ym Mhowys a Sir Benfro yn y cymunedau sydd â chanran siaradwyr Cymraeg llawr uwch na'r cyfartaledd sirol e.e.

Powys: Machynlleth 54%; Glantwymyn 60%
Sir Benfro: Crymych 60%; Dinas 54%

2.4.2 Egwyddorion Iaith Pawb

Mae'r Gymdeithas wedi ymrwmo i weithredu yn unol ag egwyddorion Iaith Pawb, cynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru ddwyieithog.

Mae egwyddorion prif ffrydio'r Gymraeg eisoes yn sail i waith y Gymdeithas ac rydym yn annog defnydd o'r Gymraeg gan eraill.

Rydym yn ymwybodol fod diffyg tai y gellir eu fforddio mewn ardaloedd gwledig yn un o'r rhesymau tybiedig pam fod pobl ifanc yn gadael cefn gwlad Cymru a'r ardaloedd Cymraeg. Y mae'r Gymdeithas yn ymwneud â nifer o fesurau a gynlluniwyd i hwyluso mynediad i dai, ac i sicrhau bod cymunedau yn parhau yn gynaliadwy.

Mae'r Gymdeithas, mewn partneriaeth â chyrff eraill, yn cyd-ariannu Swydd Hwylusydd Tai Gwledig yn Sir Benfro. Bwriad y swydd yw datblygu a chefnogi partneriaethau effeithiol gyda chymunedau cefngwlad ac arfordir gogledd Sir Benfro i sefydlu beth yw eu anghenion tai a helpu i ddarparu tai fforddiadwy. Bydd Cantref yn parhau i gefnogi'r cynlluniau yma yn ngweddill ei hardaloedd gweithredu.

2.4.2 Swyddog Cyswllt

Y Swyddog cyswllt ar gyfer y Cynllun Iaith yw:

Y Prif Weithredwr
Cymdeithas Tai Cantref
Llys Cantref
Lôn yr Eglwys
Castell Newydd Emlyn
SA38 9AB

e-bost: post@cantref.co.uk
ffôn: 01239 712000

3. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU

3.1 Polisiâu a Mentrau

3.1.1 Prif ffrydio yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwaith a wneir o dan y mesur hwn. Mae Cantref yn gweithredu yn unol â diffiniad Llywodraeth y Cynulliad o brif ffrydio'r Gymraeg, sef:

'Ystyried y Gymraeg ymhob agwedd o'ch gwaith ac ymhob peth rydych yn ei wneud, gyda'r nod o sicrhau bod pob cyfle yn cael ei gymryd i hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg; cyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o Gymru wir ddwyieithog; a chynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg.'

3.1.2 Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisiâu, bydd y Gymdeithas yn asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith hwn ac yn sicrhau bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiâu a mentrau newydd ar waith.

3.1.3 Bydd y Gymdeithas yn ymgynghori â'r Bwrdd ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwriad fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Iaith hwn. Ni newidir y Cynllun hwn heb gytundeb y Bwrdd ymlaen llaw.

3.1.4 Bydd y Gymdeithas yn sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau'r Gymdeithas o dan y Cod Rheoliadol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

3.1.5 Gall Cymdeithasau Tai gyfrannu i ddatblygiad yr iaith Gymraeg ar lefel lleol neu gymunedol a byddwn yn anelu i sicrhau fod polisiâu a mentrau newydd y Gymdeithas yn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

3.2 Darparu Gwasanaethau

3.2.1 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd bod y gwasanaethau hynny ar gael yn y ddwy iaith.

3.2.2 Mae'r Gymdeithas yn sefydliad naturiol dwyieithog a gallwn gynnig ein holl wasanaethau yn Gymraeg ar draws y sefydliad.

3.3 Gwasanaethau a gyflwynir i'r cyhoedd gan sefydliadau eraill

Swyddogaethau rheoleiddio a gwasanaethau trydydd parti

- 3.3.1** Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti yn gyson â rhannau perthnasol y Cynllun hwn. Ein nod yw sicrhau bod cyrff trydydd parti yn deall ac yn gweithredu'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cwrdd â gofynion y Cynllun laith.
- 3.3.2** Wrth osod cytundeb bydd y Pennaeth Adran perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod yr asiantaeth neu'r cwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith ar ran Cantref yn cydymffurfio â rhannau perthnasol y Cynllun.
- 3.3.3** Gwneir hyn trwy gynnwys manylion perthnasol am ofynion y Cynllun yn y dogfennau tendro, cytundebau ac amodau a yrrir at yr asiantaeth neu'r cwmni perthnasol.
- 3.3.4** Bydd y Gymdeithas yn annog eraill yn y gymuned gan gynnwys cyrff gwirfoddol a chwmnïau i wneud defnydd o'r Gymraeg.

Cyrff a Mudiadau Gwirfoddol

Rhoddir pob anogaeth i gyrrff gwirfoddol sy'n cydweithio â'r Gymdeithas i ddarparu eu deunydd a'u gwasanaeth yn ddwyieithog a disgwylir iddynt gydymffurfio â gofynion ieithyddol y Cynllun hwn.

Cwmnïau Preifat

Cydnabyddir fod y Gymdeithas yn ddibynnol ar nifer o gwmnïau preifat lle nad yw'n ymarferol iddynt ohebu yn y Gymraeg, e.e. maintfesurwyr, penseiri a chrefftwyr. Yn achos y cwmnïau hyn dylid gohebu yn y Gymraeg os yw'r derbynydd yn deall yr iaith ac yn hapus i dderbyn gohebiaeth Gymraeg. Anogir cwmnïau preifat i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog.

Gwasanaethau

Disgwylir gwasanaeth dwyieithog llawn gan y Gwasanaethau Nwy, Trydan, Dŵr a Telecom a disgwylir i staff y Gymdeithas bwysu ar y cyrff hyn i'w ddarparu.

Lle nad oes fersiwn Cymraeg o ffurflen, cwblheir y fersiwn Saesneg yn y Gymraeg ac fe bwysir ar y corff i ddarparu'r ffurflen yn y Gymraeg.

Mynnir bod eu biliau yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Gohebir â'r cyrff hyn yn y Gymraeg neu ddwyieithog. Caniateir eithriadau pan:

- i. fo'r ohebiaeth yn ymwneud â materion cymhleth, technegol neu mewn argyfwng
- ii. fo'r ohebiaeth yn benodol at swyddog arbennig lle y gwyddys fod y swyddog yn ddi-Gymraeg
- iii. fo'r ohebiaeth at gwmni y tu allan i Gymru.

Cyrff Statudol

Dylai'r ohebiaeth â chyrff statudol megis awdurdodau lleol fod yn Gymraeg neu ddwyieithog. Caniateir eithriadau pan:

- i. fo'r ohebiaeth yn ymwneud â materion cymhleth, technegol neu mewn argyfwng;
- ii. fo'r ohebiaeth yn benodol at swyddog arbennig lle y gwyddys fod y swyddog yn ddi-Gymraeg.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Bydd y Gymdeithas yn pwysu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu ffurflenni, gohebiaeth, cylchlythyrau, papurau ymgynghorol, adroddiadau a chyhoeddiadau, ac i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog.

Partneriaethau

3.3.5 Mae Cantref yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector wirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae Cantref yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill:

- pan fo Cantref yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Cynllun Iaith
- pan fo Cantref yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei arwain, bydd mewnbyn Cantref i'r bartneriaeth yn cydymffurfio a'r Cynllun Iaith a bydd y Gymdeithas yn annog partion eraill i gydymffurfio
- pan fo Cantref yn gweithredu fel rhan o gonsortiw, bydd yn annog y consortiw i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortiw bydd Cantref yn gweithredu'n unol â'r Cynllun Iaith.

3.3.6 Pan fo'r Gymdeithas yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth neu'n dirprwyo dyletswyddau a/neu gyfrifoldebau i gyrff eraill, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu cynlluniau iaith, polisiau iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Gymdeithas yn cynnig cyngor a chymorth i'r partion eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

3.3.7 Bydd y Gymdeithas yn sicrhau fod swyddogion yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith wrth weithredu mewn partneriaeth.

3.4 Safonau Ansawdd

3.4.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a chant eu darparu o fewn yr un amserlen.

3.4.2 Bydd Cantref yn datgan yr egwyddor ganolog hon mewn dogfennau allweddol fel cynlluniau busnes ac adroddiadau blynyddol a lle gwneir datganiadau ynglŷn â chyfle cyfartal a safon gwasanaeth.

4. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

4.1 Gohebiaeth

- 4.1.1** Mae'r Gymdeithas yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodir hyn ar ein papur pennawd a dulliau eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd.
- 4.1.2** Ymdrinir a phob gohebiaeth yn brydlon ac nid dydlai gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun arwain at oedi. Bydd ein targedau ar gyfer ateb gohebiaeth yn y Gymraeg yr un peth â'n targedau ar gyfer ateb gohebiaeth yn Saesneg.
- 4.1.3** Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg.
- 4.1.4** Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.
- 4.1.5** Pan fyddwn yn anfon llythyron safonol neu gylchlythyron at gynulleidfa eang, bydd yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bob derbynydd eu cael yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.
- 4.1.6** Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac am yr un pris (os yn berthnasoll).
- 4.1.7** Bydd deunyddiau fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd deunyddiau fydd wedi eu hamgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog.
- 4.1.8** Byddwn yn gwneud cofnod o'r sawl sydd yn dymuno delio â Cantref yn Gymraeg.

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

- 4.2.1** Mae'r Gymdeithas yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a'n harfer safonol yw sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth ddelio â'r Gymdeithas dros y ffôn.
- 4.2.2** Bydd pob aelod o staff yn ateb galwadau ffôn allanol gyda chyfarchiad dwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- 4.2.3** Bydd neges ddwyieithog ar beiriant ateb personol pob aelod o staff gyda'r neges Gymraeg yn gyntaf. Bydd cyfarwyddiadau dwyieithog ar beiriant ateb y switsfwrdd tu allan i oriau swyddfa.

- 4.2.4** Os bydd galwr yn dymuno siarad Cymraeg, bydd y switsfwrdd yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.
- 4.2.5** Os bydd galwr yn ffonio llinell uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond na all y person sy'n cymryd yr alwad wneud hynny, yna eglurir hynny'n gwrtais a chaiff yr alwad ei throsglwyddo i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.
- 4.2.6** Os na fydd siaradwr Cymraeg cymwys ar gael rhoddir dewis i'r galwr naill ai:
- aros i siaradwr Cymraeg ffonio nôl cyn gynted â phosibl
 - cyflwyno'r ymholiad yn Gymraeg, drwy lythyr neu e-bost, neu
 - parhau â'r alwad yn Saesneg.
- 4.2.7** Er mwyn cwrdd â'n nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal byddwn yn gweithredu'r camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i ddelio â'r Gymdeithas yn Gymraeg dros y ffôn:
- sicrhau bod gennym swyddogion dwyieithog, naill ai drwy benodi a/neu hyfforddi.

4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 4.3.1** Pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus gan y Gymdeithas, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau eraill tebyg, byddwn yn egluro i'r rhai fydd yn bresennol y bydd croeso iddynt gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Fe fydd amgylchiadau lle bydd yn briodol ar sail gwybodaeth i gynnal yr holl weithgareddau yn ddwyieithog, yn Gymraeg yn unig neu'n Saesneg yn unig.
- 4.3.2** Byddwn yn mabwysiadu dull o sefydlu dewis iaith wrth wneud y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus. Byddwn yn dilyn y drefn ganlynol:
- Bydd hysbysiadau cyhoeddus, gwahoddiadau a phapurau eraill sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer y digwyddiadau hyn yn ei gwneud yn glir fod croeso i'r cyhoedd gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg.
 - Byddwn yn gwahodd y rhai sy'n bwriadu bod yn bresennol i roi gwybod i'r trefnwyr os ydynt yn dymuno defnyddio Cymraeg neu Saesneg.
 - Bydd y trefnydd yn asesu os oes angen cyfleusterau cyfieithu. Yn ogystal ag ystyried a yw'r Gymdeithas wedi ei hysbysu o ddewis iaith y mynychwyr, bydd yn ystyried lleoliad y digwyddiad, pwy fydd yn debygol o fod yn bresennol a'r pwnc dan sylw.

- 4.3.3** Pan fydd siaradwyr Cymraeg ymysg y rhai a wahoddir neu os yw'n wybyddus fod siaradwyr Cymraeg am fynychu, dylid cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog.
- 4.3.4** Ein harfer safonol fydd darparu unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig megis taflenni neu ddogfennau arall sy'n cael eu defnyddio mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog. Cyhoeddir adroddiadau neu bapurau yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog hefyd.
- 4.3.5** Yn ogystal ag offer cyfieithu, bydd aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol i groesawu'r cyhoedd ac i ddelio â'u hymholiadau.
- 4.3.6** Bydd ein staff yn gwneud eu gallu ieithyddol yn glir mewn cyfarfodydd, er enghraifft drwy gyfarch pobl yn ddwyieithog a defnyddio bathodynau 'Iaith Gwaith' y Bwrdd.
- 4.3.7** Er mwyn sicrhau bod staff Cantref yn ymwybodol o'r gofynion wrth drefnu a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg neu'n ddwyieithog byddwn yn darparu canllawiau ar gyfer gweinyddu cyfarfodydd o'r fath.

4.4 Cyfarfodydd Eraill

- 4.4.1** Mae'r Gymdeithas yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn Gymraeg neu'n Saesneg ac yn gofalu fod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud hynny i drafod materion yn Gymraeg.
- 4.4.2** Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd byddwn yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf a byddwn yn sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rhai sy'n nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.
- 4.4.3** Disgwylir i staff wneud defnydd o'r Gymraeg lle bo gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael mewn cyfarfodydd.

4.5 Cyfathrebu â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

- 4.5.1** Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o gwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha fodd bynnag byddwn yn delio â'r cyhoedd.
- 4.5.2** Mae'r Gymdeithas yn ymrwymedig i alluogi'r cyhoedd i ddelio gyda ni yn Gymraeg drwy gyfathrebu electronig, ar lein neu gyfryngau eraill.
- 4.5.3** Byddwn yn ystyried gofynion y Cynllun hwn wrth ddarparu neu gynllunio systemau technoleg gwybodaeth newydd, neu wrth ddarparu cyfryngau rhyngweithiol.

5. WYNEB CYHOEDDUS Y GYMDEITHAS

5.1 Hunaniaeth gorfforaethol

5.1.1 Mae ein delwedd gyhoeddus, gan gynnwys ein cyfeiriad, logo, slogan corfforaethol, hunaniaeth weledol ac unrhyw wybodaeth safonol arall a ddefnyddir ar ddeunydd a nwyddau'r Gymdeithas (megis papur pennawd, papur ffacs, cardiau busnes, cyhoeddiadau ayyb) ac mewn amgylchiadau eraill megis ar arwyddion, cerbydau ac adeiladau, yn ddwyieithog.

5.2 Arwyddion

5.2.1 Mae holl arwyddion gwybodaeth o eiddo'r Gymdeithas, gan gynnwys manau mewnol lle mae aelodau'r cyhoedd yn cael mynediad yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf

5.2.2 Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar arwyddion yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb iaith.

5.2.3 Bydd arwyddion ar safleoedd datblygu yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg gyntaf. Fodd bynnag enw Cymraeg yn unig a ddefnyddir mewn perthynas ag enwau lleoedd, strydoedd ag ati lle bo dau enw.

5.2.4 Wrth ddatblygu stad newydd o dai, bydd y Gymdeithas yn cynnig enw Cymraeg ar y stad, fel arfer gyda chysylltiad hanesyddol â'r ardal.

5.2.5 Cydnabyddir mai'r awdurdod lleol biau'r gair terfynol gydag enwi stadau newydd a bydd y Gymdeithas yn eu hannog (os nad ydynt yn dewis yr enw a gynigiwyd gennym) i roi enw Cymraeg neu ddwyieithog ar y stad.

5.2.6 Mae prosesau mewn lle i sicrhau cywirdeb testun, a byddwn yn cydlynu ac arolygu hynny'n ofalus, yn enwedig pan roddir gwaith allan i gytundeb.

5.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd

5.3.1 Bydd pob deunydd sydd at sylw'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un ddogfen.

5.3.2 Ein harfer safonol fydd darparu cyhoeddiadau dwyieithog, ond mewn rhai achosion am resymau ymarferol, byddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mewn achosion o'r fath byddwn yn dosbarthu'r fersiynau yr un pryd a gyda'i gilydd. Byddant hefyd yr un mor hawdd i'w cael a bydd y ddwy fersiwn yn cynnwys neges yn dweud bod fersiwn ar gael yn yr iaith arall.

- 5.3.3** Pan gyhoeddir dogfen â phris iddi, ni fydd pris fersiwn Gymraeg y ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.
- 5.3.4** Ni fydd y Gymdeithas yn defnyddio'r dull annerbyniol o gyhoeddi yn yr un iaith a chynnig anfon copi yn yr iaith arall pan dderbynnir cais amdano.
- 5.3.5** Sicrheir bod staff a'r rhai sy'n gyfrifol am argraffu yn ymwybodol o'r polisi â'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi.
- 5.3.6** Bydd yr holl wybodaeth i'w chyhoeddi ar wefan Cantref yn ddwyieithog, a bydd deunydd ar gael i'w ddarllen yn y ddwy iaith ar yr un pryd.
- 5.3.7** Byddwn yn sicrhau bod testun Cymraeg ein cyhoeddiadau o safon uchel a bod y cywair yn briodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

5.4 Ffurflenni a deunydd esboniadol

- 5.4.1** Bydd pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig a gyhoeddir gan Cantref ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.
- 5.4.2** Ein harfer safonol fydd cynhyrchu ffurflenni dwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.
- 5.4.3** Mewn rhai achosion (efallai oherwydd cymhlethdod ffurflen) ni fydd cynhyrchu fersiwn dwyieithog yn ymarferol a gallai fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân fod yn fwy priodol. Mewn achosion o'r fath, dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gael eu cyhoeddi a'i dobarthu yr un pryd a bydd neges yn mhob fersiwn fod y ffurflen ar gael yn yr iaith arall.
- 5.4.4** Bydd y Gymdeithas yn ceisio sefydlu dewis iaith aelodau o'r cyhoedd drwy gynnwys cwestiwn 'dewis iaith' ar y ffurflen gyntaf mewn cyfres. Unwaith y bydd dewis iaith unigolyn yn hysbys byddwn yn dosbarthu deunydd Cymraeg, Saesneg, neu ddwyieithog o hynny ymlaen fel sy'n briodol.
- 5.4.5** Byddwn yn sicrhau bod cysondeb termau yn arfer rheolaidd wrth baratoi ffurflenni.
- 5.4.6** Bydd unrhyw ddatblygiad i sefydlu darpariaeth electronig ar gyfer cwblhau ffurflenni yn sicrhau cyfartaledd i'r iaith Gymraeg.

5.5 Hysbysiadau i'r Wasg

5.5.1 Mae hysbysiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus y Gymdeithas. Ein harfer safonol fydd cyhoeddi pob hysbysiad i'r wasg yn ddwyieithog ond yn Gymraeg yn unig wrth ddefnyddio cyhoeddiadau Gymraeg eu hiaith.

5.6 Ymgyrchoedd Marchnata a Chyhoedduswydd

5.6.1 Wrth fynd ati i gyflawni gweithgareddau hysbysebu a chyhoedduswydd, gan gynnwys cynhyrchu pamffledi, deunyddiau clywedol, trefnu arddangosfeydd a seminarau, ymgyrchoedd hysbysebu ac ymchwil farchnad byddwn yn gweithredu'r amcanion canlynol:

- cynhyrchu pob deunydd cyhoedduswydd yn Gymraeg a Saesneg
- cynnal ymgyrchoedd hysbysebu i'r wasg yn Gymraeg a Saesneg
- hysbysebu ar bosteri a byrddau gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg
- cynnal arolygon cyhoeddus yn ddwyieithog, boed drwy'r post neu wyneb yn wyneb
- cynnal ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yn Gymraeg a Saesneg
- gosod arddangosfeydd a stondinau gwybodaeth ddwyieithog.

5.6.2 Cynhelir rhai o'r gweithgareddau uchod yn Gymraeg yn unig mewn digwyddiadau sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, megis Eisteddfodau.

5.7 Hysbysiadau Swyddogol a Chyhoeddus a Recriwtio Staff

5.7.1 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein hysbysiadau swyddogol hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff yn ymddangos yn ddwyieithog gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.7.2 Darperir pecynnau gwybodaeth, megis swydd ddisgrifiadau a manylion personol yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob un o'n swyddi.

5.7.3 Mae'r Gymdeithas yn defnyddio'r wasg iaith Gymraeg i hysbysebu a bydd ein hysbysebion yn y cylchgronau hynny yn ymddangos yn Gymraeg yn unig.

6. GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

6.1 Staffio

6.1.1 Bydd y Gymdeithas yn rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod gan bob un o'i gweithfannau sydd â chyswllt â'r cyhoedd ddigon o staff ar gael gyda'r sgiliau priodol yn yr iaith Gymraeg er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth llawn yn y Gymraeg.

6.1.2 Er mwyn sicrhau bod gennym sgiliau iaith Gymraeg priodol yn y manau cywir, byddwn yn dilyn y drefn ganlynol:

- Byddwn yn nodi'r gweithfannau a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol (gweler 6.1.5).
- Byddwn yn cynnal archwiliad i sefydlu nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg yn ogystal â lefel eu gallu, a'u lleoliad.
- Caiff canlyniadau'r ddau ymarferiad hyn eu cymharu er mwyn nodi gweithfannau lle mae prinder staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol yn yr iaith Gymraeg.

6.1.3 Bydd y Gymdeithas yn ymateb i unrhyw ddiffyg sgiliau drwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi, neu drwy ystyried y posibilrwydd o ail-leoli staff yn fewnol.

6.1.4 Byddwn yn mabwysiadu rhaglen weithredu ar gyfer cyflawni hyn gan sicrhau bod rheolwyr ac eraill sy'n gyfrifol am recriwtio yn gyfarwydd â'r trefniadau.

6.1.5 Byddwn yn gosod gofynion ieithyddol (dymunol neu hanfodol) ar rai swyddi gan ystyried y ffactorau canlynol

- Maint ac amllder y cysylltiad gyda'r cyhoedd.
- Gallu cyfredol yr Uned neu'r Swyddfa i gyflwyno gwasanaeth wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Arbenigedd y swydd, h.y. efallai bod sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn allweddol mewn rhai meysydd penodol.
- Os yw'n swydd mewn ardal benodol, yna asesiad o'r nifer/canran o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

6.1.6 Wrth asesu ein hanghenion staffio, byddwn yn darparu ar gyfer cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth i gynlluniau gael eu gweithredu ac wrth i siaradwyr Cymraeg ymateb i'r cynnig am wasanaeth Cymraeg

6.1.7 Byddwn yn sicrhau bod ein derbynfeydd a'n prif switsfwrdd yn gallu cynnig gwasanaeth yn Gymraeg bob amser.

- 6.1.8** Byddwn yn cynyddu adnoddau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Iaith mewn modd sensitif drwy annog a chefnogi holl aelodau staff i gymryd rhan. Byddwn yn meithrin sgiliau yn yr iaith ynghyd ag agweddau cefnogol tuag at ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Byddwn yn sicrhau na fydd aelodau o staff di-Gymraeg yn teimlo dan fgythyad, a byddwn yn cefnogi staff sydd am ddysgu'r Gymraeg drwy gyrsiau hyfforddiant priodol. Byddwn yn trin sgiliau ieithyddol mewn modd tebyg i unrhyw sgiliau eraill sydd angen eu datblygu yn y gweithle.
- 6.1.9** Anogwn staff i gryfhau eu sgiliau iaith Gymraeg drwy gymryd pob cyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gweithle.

6.2 Recriwtio

- 6.2.1** Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol fod ymgeisydd yn meddu ar sgiliau yn yr iaith Gymraeg, nodir hyn yn glir yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion. Byddwn hefyd yn nodi'r lefel cymhwyster sydd ei angen ar gyfer y swydd, er enghraifft 'gallu i sgwrsio yn y Gymraeg ond rhoddir hyfforddiant a chymorth gyda Chymraeg ysgrifenedig' / 'gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn hanfodol'.
- 6.2.2** Lle na phenodir ymgeisydd addas sydd â sgiliau yn yr iaith Gymraeg i swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, rhoddir cefnogaeth i'r sawl a benodir i ddysgu Cymraeg.
- 6.2.3** Os bydd anhawster recriwtio unigolyn sy'n siarad Cymraeg i swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, efallai y bydd angen ystyried penodi rhywun nad yw'n siarad Cymraeg. Yn yr achos yma, yr arferiad fydd un ai:
- hysbysebu eto gan ddweud bydd ymgeiswyr di-Gymraeg yn cael eu hystyried ar yr amod eu bod yn ymrwmo i ddysgu Cymraeg i safon arbennig o fewn amser penodol, gyda'r lefel o gymhwyster i'w phrofi
 - hysbysebu penodiad dros-dro a'i adolygu er mwyn diwallu'r angen mewn ffordd arall, neu
 - ail hysbysebu wedi amser penodol.
- 6.2.4** Os penodir ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd y gallu i ddysgu'r iaith hyd at lefel benodol o fedrusrwydd, o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno, yn un o amodau cyflogi. Caiff cynnydd tuag at y targed ei fonitro'n rheolaidd.

6.3 Hyfforddiant Cymraeg

- 6.3.1** Byddwn yn cefnogi'r Cynllun Iaith hwn drwy annog a chefnogi aelodau Bwrdd a staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau yn y Gymraeg.
- 6.3.2** Byddwn yn cynllunio ein rhaglen hyfforddiant yn ofalus ac yn canolbwyntio adnoddau ar y manau hynny o'n gwasanaeth lle bydd cyfathrebu aml gyda siaradwyr Cymraeg, neu lle mae gofynion ieithyddol i'r swydd.
- 6.3.3** Mae'n fuddiol bod dysgwyr yn gwybod am gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg a byddwn yn annog y staff i geisio cynorthwyo'r rheiny sy'n dysgu.
- 6.3.4** Bydd y Swyddog Adnoddau Dynol yn cynnwys cyrsiau iaith yn y rhaglen hyfforddiant yn unol â gofynion cynllun hyfforddiant aelodau unigol o staff. Caiff cynnydd yn sgil hyfforddiant ei fesur fel rhan gyfundrefn datblygiad personol y Gymdeithas .
- 6.3.5** Bydd geiriaduron a deunydd electronig ar gael i gynorthwyo staff sy'n dysgu Cymraeg a staff sy'n dymuno gloywi eu hiaith.
- 6.3.6** Bydd y Gymdeithas hefyd yn rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff ynglŷn â disgwyliadau'r Cynllun hwn. Ein harfer safonol fydd cynnwys hyfforddiant o'r fath wrth anwytho staff newydd.

6.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

- 6.4.1** Bydd Rheolwyr Llinell a staff Adnoddau Dynol sydd â chyfrifoldeb am hyfforddiant yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol iaith Gymraeg ar gyfer staff.
- 6.4.2** Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i gynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, pryd bynnag y bo'n ymarferol.
- 6.4.3** Os nad oes cyrsiau parod ar gael yn Gymraeg mewn maes penodol, byddwn yn ystyried trefnu seminarau a gweithgorau ein hunain, neu rwydweithio â sefydliadau eraill.

6.5 Trefniadau Gweinyddol

- 6.5.1** Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn y Gymdeithas. Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad y Cynllun Iaith ac mae gan bob aelod o staff y Gymdeithas gyfrifoldeb i wybod sut mae gweithredu'r Cynllun yn effeithiol.

- 6.5.2** Bydd gan Benaethiaid Adran perthnasol gyfrifoldeb am weithredu'r agweddau hynny o'r Cynllun hwn sy'n berthnasol i'w gwaith.
- 6.5.3** Byddwn yn enwi aelod presennol o staff i fod yn gyfrifol am gydlynu a monitro gwaith y Cynllun o ddydd i ddydd.
- 6.5.4** Byddwn yn cynorthwyo gweithrediad y Cynllun drwy ddarparu cyfarwyddiadau a chanllawiau ysgrifenedig i staff. Mae'r math o gyfarwyddiadau wedi eu hamlinellu o dan fesurau unigol yn y Cynllun.
- 6.5.5** Iaith gweithredu fewnol arferol y Gymdeithas yw'r Gymraeg. Byddwn yn sicrhau bod staff yn derbyn yr hyfforddiant a'r cymorth angenrheidiol i'w galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- 6.5.6** Er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle rydym yn darparu adnoddau megis geiriaduron, meddalwedd terminoleg Gymraeg a meddalwedd eraill cyfrwng Gymraeg i staff.
- 6.5.7** Pan fo angen byddwn yn gofyn cyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

6.6 Arolygu Gweithredu'r Cynllun

- 6.6.1** Mae gan yr uwch swyddog canlynol gyfrifoldeb am arolygu ac adolygu'r Cynllun hwn:

Y Prif Weithredwr
Cymdeithas Tai Cantref
Llys Cantref
Lôn yr Eglwys
Castell Newydd Emlyn
SA38 9AB
Ffôn: 01239 712000
e-bost: post@cantref.co.uk

- 6.6.2** Bydd arolygu'r Cynllun hwn yn weithgaredd parhaus â strwythur iddo. Bydd hyn yn cynnwys arolygu'r meysydd canlynol:
- cydymffurfiaeth â'r Cynllun
 - ansawdd y gwasanaeth – edrych ar gwynion a'r gwasanaeth rheng flaen
 - rheolaeth a gweinyddiad
 - digonolrwydd sgiliau ieithyddol – yn seiliedig ar ymrwymïadau 6.1-6.4
 - prif ffrydio.

- 6.6.3** Byddwn yn ceisio barn siaradwyr Cymraeg yn achlysurol ynglŷn ag amrediad a safon y gwasanaethau mae'r Gymdeithas yn ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.6.4** Byddwn yn defnyddio trefn gwyno arferol y Gymdeithas i gofnodi a delio â chwynion am y Cynllun hwn ac yn sicrhau bod modd arolygu cwynion am y Cynllun yn benodol. Mae Polisi Gwneud Cwyn Cantref ar gael drwy wneud cais at:

Adran Y Prif Weithredwr
Cymdeithas Tai Cantref
Llys Cantref
Lôn yr Eglwys
Castell Newydd Emlyn
SA38 9AB

Rhif ffôn: 01239 712000
e-bost: post@cantref.co.uk

- 6.6.5** Mae Cantref yn croesawu a chofnodi awgrymiadau ar sut i wella'r gwasanaeth.
- 6.6.6** Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i'r Bwrdd Rheoli yn flynyddol ac yn anfon copi o'r adroddiad at Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat wedi ei gytuno â'r Bwrdd a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau gwelliant i'r Cynllun a dderbyniwyd gan y cyhoedd.

6.7 Cyhoeddi Gwybodaeth

- 6.7.1** Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad yn flynyddol yn adroddaid blynyddol y Gymdeithas
- 6.7.2** Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynyddol yn nodi ble gall aelod o'r cyhoedd gael gafael ar gopi o'n adroddiad monitro blynyddol at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 6.7.3** Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth yn benodol ar y meysydd canlynol sy'n seiliedig ar y safonau a'r targedau yn y Cynllun (bydd y wybodaeth yma hefyd yn ymddangos yn ein hadroddiad at Fwrdd yr Iaith Gymraeg):
- Nifer a chanran swyddi y brif dderbynfa / canolfan gyswllt a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' ac a lenwyd gan staff dwyieithog
 - Nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol.
 - Nifer a chanran staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

- Nifer a chanran staff y Gymdeithas sy'n medru siarad Cymraeg, fesul adran a gweithle neu swyddfa.
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith a chanran y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Gymdeithas.

6.8 Cyhoeddusrwydd

6.8.1 Byddwn yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n delio â'r Gymdeithas yn gwybod am y Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut gallent ddelio â'r Gymdeithas yn Gymraeg.

6.8.2 Bydd ein dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol, gan gynnwys sicrhau caiff y Cynllun ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan.

6.8.3 Byddwn yn sicrhau bod staff ac asiantaethau'r Gymdeithas yn gyfarwydd â'r mesurau sydd yn y Cynllun er mwyn gwneud yn siŵr telir sylw i'r mesurau bob tro mae hynny'n briodol.